MUSIC.
THEATRE.
WALES.

Mae Music. Theatre. Wales. yn recriwtio!

2 SWYDD DAN HYFFORDDIANT I ARTISTIAID SY'N DOD I'R AMLWG AC YN BYW YN RHONDDA CYNON TAF

Wyt ti'n artist sy'n dod i'r amlwg ac yn byw yn RhCT sy'n edrych i ddatblygu sgiliau a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc ag awtistiaith, anableddau dysgu, neu sy'n niwroamrywiol?

Ydych chi eisiau cydweithio â dysgu gan bobl ifanc a thîm proffesiynol o hwyluswyr creadigol medrus i greu opera ddigidol unigryw a fydd yn cael ei dangos fel cynhyrchiad Music Theatre Wales, gan herio'r cysyniad o beth yw opera a phwy sy'n ei greu?

Mae MTW yn cynnig dwy swydd dan hyfforddiant ar sail llawrydd fel rhan o'n rhaglen Cyfeiriadau'r Dyfodol yn Rhondda Cynon Taf (RhCT). Nod Cyfeiriadau'r Dyfodol yw cefnogi cwmni ifanc i greu Opera Ddigidol newydd a fydd yn cael ei ddangosam y tro cyntaf mewn digwyddiad ym Mharc a'r Dâr ym mis Medi 2025. Bydd yn cael ei gyflwyno ar-lein wedyn fel cynhyrchiad gan Music Theatre Wales. Am fwy o wybodaeth am Cyfeiriadau'r Dyfodol ac i wylio ein Opera Ddigidol flaenorol - *Perthyn* a *The Things That Go Unnoticed*, gweler Future Directions | Music Theatre Wales

Rydym yn chwilio am unigolion dros 18 oed sydd â diddordeb a brwdfrydedd i ddysgu mwy am greu straeon cerddorol newydd gyda grŵp niwroamrywiol o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

Byddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer y rolau canlynol:

Hyfforddai Drama – gan weithio ochr yn ochr â'r Hwylusydd Prosiect, Cyfarwyddwr a Dramatwrg, Jain Boon, i gefnogi'r cwmni ifanc wrth iddynt ddatblygu eu stori eu hunain, creu'r testun a'r symudiadau, a chydweithio gyda gweddill y tîm i greu opera ddigidol.

Hyfforddai Cerddoriaeth – gan weithio gyda'r cyfansoddwr Tom Elstob i gefnogi'r cwmni ifanc i greu'r cerddoriaeth ar gyfer yr opera ddigidol

Hyfforddau Gwneuthiriwr Ffilm – gan weithio gyda'r gwneuthurwyr ffilmiau Redbrck i gefnogi'r cwmni ifanc i greu'r opera ddigidol, ei ffilmio a'i olygu.

Bydd pob hyfforddai yn derbyn ffi o £1,000 (Each Trainee will be paid a **fee of £1,000** (ynghyd â threuliau rhesymol a gytunwyd ymlaen llaw) i gymryd rhan.

Cefndir y Cwmni

Mae MTW yn rym dros newid a datblygiad ym maes opera yn y DU, gan greu cyfleoedd trawsnewidiol i artistiaid a chynulleidfaoedd greu a chael mynediad at opera gyfoes, yn aml am y tro cyntaf. Rydym wedi gweithio gyda nifer o gyfansoddwyr mwyaf clodfawr ein hoes, wedi creu 53 o gynyrchiadau byw, gan gynnwys 23 o berfformiadau cyntaf byd-eang, ac yn 2021

cychwynnwyd ar siwrnai newydd i ofyn beth sydd angen i opera ei wneud NAWR i chwarae rôl hollbwysig mewn bywyd cyfoes.

Wrth adeiladu ar ein hanes o greu gwaith arloesol, rydym wedi troi'r cwestiynau at ein hunain – sut y gallwn ddod â gwerth gwirioneddol i gymdeithas fel crewyr opera gyfoes? Ein hateb yw ail-ddychmygu beth yw opera a chreu gwaith sydd wir yn adlewyrchu Cymru a DU heddiw. Byddwn yn cyflawni hyn trwy wahodd yr artistiaid sydd wedi cael eu hanwybyddu neu eu heithrio o'r byd opera i ddod â'u sgiliau, eu gweledigaeth, eu straeon a'u cerddoriaeth i ffurf sy'n gweiddi am gyfeiriad a chynulleidfa newydd. Ein nod yw ailgysylltu opera â mwy o bobl a chymunedau, gan sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb.

Mae Music Theatre Wales yn ail-ddychmygu opera.

Rydym yn gofyn: Beth yw opera? Pwy sy'n ei greu? ac Ar gyfer pwy y mae e?

Cyfeiriadau'r Dyfodol

Rhaglen i bobl ifanc sy'n dod â phobl niwroamrywiol a niwro-nodweddiadol sydd ag anableddau dysgu ac sy'n awtistig rhwng 16 a 25 ynghyd i greu opera ddigidol sy'n rhoi llais iddynt fynegi pwy ydyn nhw. Mae gwaith y bobl ifanc yn cael ei greu mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol o feysydd cerddoriaeth, theatr, opera a ffilm ac yn cael ei gyflwyno fel cynhyrchiad Music Theatre Wales.

Mae pobl ifanc yn cynrychioli'r dyfodol, ac rydym am eu hysbrydoli i ystyried sut y gall opera ymestyn eu creadigrwydd, cryfhau eu hymdeimlad o hunaniaeth bersonol a rhoi llais iddynt yn y byd. Ar yr un pryd, bydd gwaith y Cwmni Ifanc yn cyfrannu at ddatblygiad dulliau newydd MTW o greu gwaith newydd.

Wrth weithio mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol creadigol (y "tîm creadigol" sy'n cynnwys cyfarwyddwr/dramodydd, cyfansoddwr, cantor a gwneuthurwr ffilm), bydd y grŵp ifanc niwroamrywiol yn creu a datblygu opera newydd, gan archwilio eu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd a'r artistiaid cefnogol, gan ysbrydoli'r naill a'r llall. Bydd y gwaith a grëir yn cael ei gyflwyno fel cynhyrchiad Music Theatre Wales, gan ymestyn amrywiaeth ein gwaith, datblygu dulliau newydd i'r cwmni a chysylltu a gynulleidfa sydd erioed wedi ystyried opera fel rhywbeth perthnasol i'w bywydau.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â Hijinx Theatre ac yn cael ei arwain yn greadigol gan yr Hwylusydd Prosiect, Jain Boon. Yn 2024-2025, bydd y prosiect yn digwydd yn ardal RhCT a'r cyffiniau, gyda chefnogaeth Cyngor Sir RhCT (yn benodol gwasanaethau Celfyddydau a Cherddoriaeth y Cyngor).

Crynodeb: Hyfforddeion – Cyfeiriadau'r Dyfodol (RhCT)

MUSIC.
THEATRE.
WALES.

Bydd pob hyfforddai yn cysgodi, cynorthwyo, a dysgu gan yr hwylusydd creadigol maent yn ymgeisio i'w hyfforddi o dan ei arweiniad. Bydd cefnogaeth bellach ar gael gan Reolwr Prosiect Cyfeiriadau'r Dyfodol, Emma Edwards, a staff craidd MTW, Michael McCarthy (Cyfarwyddwr) a Kathryn Joyce (Rheolwr Cyffredinol).

Bydd disgwyl iddynt fynychu'r sesiynau canlynol:

- Preswyl Creadigol 1 – Dydd Llun 24 i Ddydd Mercher 26 Chwefror 2025
- Diwrnod Ymgysylltu wyneb yn wyneb – Dydd Gwener 25 Ebrill 2025
- Preswyl Creadigol 2 – Dydd Mawrth 27 i Ddydd Iau 29 Mai 2025

Bydd pob un o'r sesiynau "byw" uchod yn cael eu cynnal yn Stiwdio 1, Theatr Parc a'r Dâr, Treorci.
Bydd nifer cyfyngedig o sesiynau creadigol ar-lein rhwng y preswylfeydd, a bydd gofyn i'r hyfforddeion hefyd fynychu un sesiwn gynllunio ar-lein cyn y preswyl cyntaf. Yn ogystal, bydd disgwyl i hyfforddeion gymryd rhan yn y broses werthuso prosiect MTW ac i gymryd rhan mewn cyfarfod un-i-un byr ar-lein ar ôl cwblhau'r contract i roi adborth ar eu profiadau.
Bydd gwiriad DBS estynedig yn cael ei chwblhau a'i hariannu gan MTW. Bydd hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu ac mae'n rhaid ei gwblhau cyn y preswyl creadigol cyntaf.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Diogelu

Mae MTW yn ymrwymedig i gyflawni mwy o gydraddoldeb fel sefydliad ac fel cyflogwr. Rydym yn anelu at sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig. Credwn fod hyn yn fater o gyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol, a bod angen newid diwylliant sefydliadol yn hytrach na dibynnu ar gwotâu yn unig. Mae newid yn digwydd ar draws ein sefydliad – yn y gwaith rydym yn ei greu, y bobl sy'n ei greu, y bobl rydym yn eu cyrraedd, ac o fewn ein Bwrdd Ymddiriedolwyr a'n staff.

Mae diogelu wastad yn flaenoriaeth gennym. Mae lles pob unigolyn yn hanfodol yn ein gwaith a'n penderfyniadau. Mae gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl, eu rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill yn hanfodol i hyrwyddo lles pawb. Ni ddyle unrhyw un brofi unrhyw fath o gamdriniaeth, ac mae gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo lles pawb – i'w cadw'n ddiogel ac i greu mewn ffordd sy'n eu diogelu. Mae ein polisi diogelu yn berthnasol i bawb sy'n gweithio ar ran MTW.

Gallwch ddarllen ein polisïau Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Diogelu yma:
[Policies | Music Theatre Wales]

Termau

Rheolwr Llinell:	Kathryn Joyce, Rheolwr Cyffredinol (er y bydd llinellau adrodd ar y safle trwy hwylusydd creadigol yr hyfforddai).
Cytundeb:	Cytundeb llawrydd rhwng Chwefror a Mai 2025
Oriau:	Hyblyg a rhan amser, hyd at 10 diwrnod dros gyfnod y cytundeb

MUSIC.
THEATRE.
WALES.

Lleoliad: Theatr Parc & Dare, Treorci ac ar-lein

Ffi / buddion: £1,000

Bydd treuliau rhesymol a gytunwyd ymlaen llaw yn cael eu had-dalu – bydd y rhain yn cael eu trafod a'u cytuno yn ôl lleoliad cartref y hyfforddai.

Mae MTW yn cynnig Rhaglen Cymorth Gweithwyr trwy Health Assured, sy'n darparu cefnogaeth iechyd a lles i unrhyw un sy'n gweithio i MTW ar sail barhaol, llawrydd neu wirfoddol. Mae MTW hefyd wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n agos â'r deiliad i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni yn y maes hwn. Bydd hyfforddiant diogelu cydnabyddedig yn cael ei ddarparu ac yn cael ei ariannu fel rhan o'r rôl.

Sut i wneud cais

I wneud cais, anfonwch ddatganiad byr sy'n cynnwys:

- Pa hyfforddiant rydych yn ceisio amdano (Cerddoriaeth, Drama neu Ffilm)
- Ychydig amdanoch chi a'ch profiad hyd yma
- Eich uchelgais creadigol a'r hyn rydych yn gobeithio y gallai'r cyfle hwn ei gynnig

Gellir cyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig neu trwy fideo, a'u hanfon at kathryn@musictheatre.wales

Cwblhewch hefyd ein Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar-lein yma. Nodwch yn eich e-bost neu'ch fideo eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon.

Dyddiad Cau: Dydd Gwener 13 Rhagfyr 2024, 12 canol dydd

Cyfweliadau Anffurfiol: Wythnos16 Rhagfyr 2024

Penderfyniad: 23 Rhagfyr 2024

Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Mynediad

Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat gwahanol, byddem yn hapus i fodloni hynny. I drafod hyn, neu i drafod unrhyw ofynion mynediad neu gynhwysiad ychwanegol neu addasiadau rhesymol eraill, cysylltwch â kathryn@musictheatre.wales

Mae MTW yn ymrwymedig i fod yn gyflogwr sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac i wella ei amrywiaeth er mwyn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rydym yn annog ceisiadau gan yr ystod ehangaf o gefndiroedd, gyda sgiliau a phrofiadau gwahanol i'w cyfrannu i'n sefydliad. Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu, rydym yn darparu cynllun cyfweliad gwarantedig i ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r gofynion lleiaf ar gyfer y swydd ac sy'n anabl, yn niwroamrywiol neu'n bobl o'r mwyafrif byd-eang.

Er mwyn sicrhau bod ein proses gyfweld yn hygyrch i'r ystod ehangaf o ymgeiswyr, byddwn yn darparu'r cwestiynau cyfweld, a'r manylion am fformat y cyfweliad, ymlaen llaw.

Diogelu Data

Bydd Music Theatre Wales yn casglu ac yn prosesu data personol gennych i reoli'r broses recriwtio. Bydd unrhyw ddata sydd gan MTW amdanoch yn cael ei storio'n ddiogel gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rheiny sy'n gweinyddu'r broses recriwtio. Bydd MTW yn cadw eich data ar ffeil am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio. I gyflawni'r broses recriwtio, bydd MTW yn rhannu'r data personol a dderbynnir gennych ymysg ei dîm gweinyddol, y panel rhestru byr, a'r panel cyfweld. Bydd mynediad yn gyfyngedig i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses recriwtio.

Mae MTW yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.